

# Cylchlythyr Tyfu Canolbarth Cymru Mis Tachwedd 2023

## Y Cronfa Ffyniant Gyffredin

Croeso cynnes i ddarllenwyr hen a newydd.

Ydych chi'n cofio nôl i fis Medi pan wnaethon ni ganolbwyntio ein cylchlythyr ar Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU?

Wel, nid oeddem yn gallu cyflwyno’r holl wybodaeth yr oeddem eisiau ar y pryd ac ers hynny, mae cymaint mwy o brosiectau wedi derbyn cyllid. Hyd yn hyn, mae 44 o brosiectau yn canolbwyntio ar gefnogi ein busnesau lleol felly rydym am rannu'r holl newyddion da hyn gyda chi y mis hwn.

Mae gennym hefyd darn misol newydd sbon lle rydym yn tynnu sylw at fusnes neu sefydliad yng Nghanolbarth Cymru sydd wrthi, neu'n bwriadu, cyflwyno prosiect neu raglen gyda chymorth cyllid. Y mis hwn, mae Menter a Busnes a Thwristiaeth Canolbarth Cymru (MWT Cymru) yn siarad â ni am sut mae eu prosiectau a ariennir gan Y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn mynd i helpu busnesau ac unigolion yn y gymuned.

Ein cydweithiwr *Cwrdd â'r Tîm* y mis hwn yw Barbara Green, Swyddog Cymorth Prosiect, sy'n gweithio â llawer o'r ffrydiau ariannu y mae Tyfu Canolbarth Cymru yn helpu i gydlynu ochr yn ochr â Thimau Cyflenwi'r Awdurdod Lleol (Ceredigion a Phowys).

Ydych chi wedi clywed bod ymgynghoriad yn cael ei gynnal ar y Cynllun Corfforaethol ar gyfer Cydbwyllgor Corfforaethol y Rhanbarth? Y dyddiad cau ar gyfer gwneud sylwadau yw 11 Rhagfyr.

Helpu i dyfu cyfle yng Nghanolbarth Cymru.

*Tîm Tyfu Canolbarth Cymru*

[Clawr: Llun o Gei Newydd, Ceredigion ©Croeso Cymru]

## Cynnwys


- Trosolwg: Cefnogi busnesau lleol drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin
- Cynllun Grant Ceredigion
- Cynllun Grant Powys
- Stori'r Gronfa Ffyniant Cyffredin yn y rhanbarth hyd yma - beth sydd wedi cael cyllid
- Cwrdd â Busnes yng Ngheredigion: Menter a Busnes
- Cwrdd â Busnes ym Mhowys: Twristiaeth Canolbarth Cymru (MWT Cymru)
- Cwrdd â'r Tîm: Barbara Green, Swyddog Cefnogi Prosiect
- Newyddion Arall:

- Ymgynghoriad Cynllun Corfforaethol

- Cyfres Her Launchpad y Canolbarth Rownd 2


## Cefnogi busnesau lleol drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin

WEDI'I YRRU GAN FFYNIANT BRO | POWERED BY LEVELLING UP

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

Mae Canolbarth Cymru yn gartref i ystod amrywiol o fusnesau, yn enwedig microfusnesau sy'n cyflogi llai na 10 o weithwyr. Fel rhanbarth, mae gennym gryfderau penodol yn y sectorau gweithgynhyrchu, twristiaeth, amaethyddiaeth, bwyd a diod.

Rydym yn ceisio denu busnesau newydd a thyfu rhai sy'n bodoli eisoes; creu mwy o gyfleoedd gwaith a chyflogau uwch; darparu'r set gywir o amgylchiadau i bobl ifanc aros yn y rhanbarth; ac i gynyddu'r enillion cyfartalog.

Mae Cronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU yn darparu cyfleoedd i gefnogi busnesau lleol i ffynnu, arloesi a thyfu.

O dan elfen 'Cefnogi Busnes Lleol' y Gronfa, mae rhanbarth Canolbarth Cymru eisoes wedi dyfarnu cyllid i **44** o brosiectau – **11** yng Ngheredigion a **33** ym Mhowys, gyda chyfanswm gwerth £8.8 miliwn.

Mae'r prosiectau hyn yn amrywiol eu natur ac yn cynnwys:

- Cymorth busnes drwy gyngor a chynlluniau grant
- Prosiectau sy'n gysylltiedig ag ynni
- Cefnogaeth i fentrau cymdeithasol a'r economi gymdeithasol
- Twristiaeth a digwyddiadau
- Ymchwil a Datblygu / Arloesi
- Astudiaethau Dichonoldeb

Mae dau o'r prosiectau hyn i'w gweld yn ein hadran 'Cwrdd â Busnes' isod: Menter a Busnes a Thwristiaeth Canolbarth Cymru (MWT Cymru).

Mae Cynghorau Sir Ceredigion a Powys hefyd yn gweithredu cynlluniau grant i gefnogi busnesau i ddechrau, cynnal, tyfu ac arloesi. Mae'r cynlluniau hyn wedi'u crynhoi yma:

## Cyngor Sir Ceredigion – Cronfa Cynnal y Cardi

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

- Wedi'i anelu at fusnesau i ddechrau, cynnal, tyfu ac arloesi
- Grantiau busnesau bach rhwng £1,000 a £10,000
- Grantiau datblygu busnes rhwng £10,001 a £50,000 (Ni fydd ceisiadau mwy yn cael eu heithrio ond bydd angen rhesymeg gadarn)
- Bydd pob grant yn seiliedig ar 80% o'r costau cymwys. Rhaid i arian cyfatebol fod yn arian parod (yn hytrach na 'mewn nwyddau')
- Gellir defnyddio cyllid i helpu i ariannu cynlluniau cyfalaf a phrosiectau refeniw untro ond ni ellir ei ddefnyddio i dalu costau rhedeg arferol
- Caeodd y rownd gyntaf yn ddiweddar – gan ragweld agor rownd arall yn y Flwyddyn Newydd
- Am ragor o wybodaeth ewch i Gronfa Fusnes Cynnal y Cardi neu e-bostiwch: cynnalycardi@ceredigion.gov.uk

### Cyngor Sir Powys – Grant Twf

- Wedi'i anelu at fusnesau i ddechrau, cynnal, tyfu ac arloesi
- Grantiau rhwng £1,000 a £25,000
- Bydd pob dyfarniad grant yn seiliedig ar 50% o gostau cymwys y prosiect neu uchafswm o £5,000 fesul swydd a grëwyd a/neu £5,000 fesul swydd a ddiogelir, pa un bynnag sydd leiaf. (Rhaid creu o leiaf un swydd newydd a/neu un swydd cyfwerth ag amser llawn wedi'i diogelu, er mwyn cael mynediad i'r grant.)
- Gellir defnyddio cyllid i helpu i ariannu cynlluniau cyfalaf a phrosiectau refeniw untro ond ni ellir ei ddefnyddio i dalu costau rhedeg arferol
- Ar agor ar hyn o bryd ar gyfer ceisiadau – dyddiad cau 15 Rhagfyr. Rownd nesaf yn agor Ebrill 2024.
- Am fwy o wybodaeth ewch i wefan Cyngor Sir  Powys: Grant Twf Busnes Powys neu e-bostiwch: regeneration@powys.gov.uk

Os oes gennych ddiddordeb mewn ceisio am gyllid ar gyfer eich prosiect eich hun, cofrestrwch eich diddordeb i fod y cyntaf i wybod pryd y cyhoeddir galwadau newydd am geisiadau:

ukspf@ceredigion.gov.uk

ukspf@powys.gov.uk

## Stori Cronfa Ffyniant Gyffredin y rhanbarth hyd yma

### Ceredigion

Yn dilyn rownd lwyddiannus o geisiadau, mae cyfanswm o 33* o brosiectau wedi derbyn cyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin yng Ngheredigion. Mae'r rhestrau ar y diagram isod yn amlinellu'r prosiectau. Bydd pob prosiect wedi derbyn cyllid o dan y pedair prif flaenoriaeth buddsoddi:

a. Cymunedau a Lle


b. Cefnogi Busnes Lleol

c. Pobl a Sgiliau

d. Lluosi (Rhifedd Oedolion)

Mae mwy o wybodaeth am y prosiectau hyn ar dudalen Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU ar wefan Cyngor Sir Ceredigion.

*Dim ond prosiectau sydd wedi cwblhau'r cytundeb ariannu a lofnodwyd a nodir yma. Nid yw prosiectau sy'n dal i fynd drwy'r broses hon yn cael eu henwi.




## Powys

Yn dilyn rownd lwyddiannus o geisiadau, mae cyfanswm o 68* o brosiectau wedi derbyn cyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin ym Mhowys. Mae'r rhestrau ar y diagram isod yn amlinellu'r prosiectau. Bydd pob prosiect wedi derbyn cyllid o dan y pedair prif flaenoriaeth buddsoddi:

a. Cymunedau a Lle

b. Cefnogi Busnes Lleol

c. Pobl a Sgiliau

d. Lluosi (Rhifedd Oedolion)

Bydd mwy o wybodaeth am y prosiectau hyn yn cael ei gyhoeddi yn fuan ar dudalen Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU ar wefan Cyngor Sir Powys.

*Dim ond prosiectau sydd wedi cwblhau'r cytundeb ariannu a lofnodwyd a nodir yma. Nid yw prosiectau sy'n dal i fynd drwy'r broses hon yn cael eu henwi.




## Cwrdd â Busnes yng Ngheredigion: Menter a Busnes

### SBARC Ceredigion – Prosiect newydd yng Ngheredigion i feithrin entrepreneuriaid y dyfodol

Lansiwyd prosiect SBARC Ceredigion fis Medi 2023, sy'n cael ei ariannu gan Llywodraeth y DU, wedi ei yrru gan Ffyniant Bro a'i rheoli gan Menter a Busnes. Bydd prosiect newydd gan Menter a Busnes yn rhoi cyfle i 24 unigolyn lwcus o Geredigion ddysgu a chael profiadau arbennig yng nghwmni rhai o entrepreneuriaid gorau'r ardal, a thu hwnt.

Fel rhan o'r prosiect 18-mis, bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn treulio dau benwythnos preswyl yng Ngheredigion, a thaith astudio tramor. Bydd y rhaglen hefyd yn rhoi cyfle i'r unigolion i gwblhau tystysgrif ôl-radd lefel 7 ar Arwain Newid drwy Brifysgol Aberystwyth. Er mwyn ymgeisio ar gyfer SBARC Ceredigion, mae'n rhaid byw neu weithio yng Ngheredigion ac yn hŷn na 18 oed.

Roedd ymgyrch llwyddiannus yn rhan o lansio'r prosiect er mwyn recriwtio'r criw cyntaf o 12 person i gymryd rhan yn rhaglen SBARC Ceredigion dros yr Hydref. Mae ffermwr, darlunydd, cynhyrchydd teledu a cherddor ymysg y deuddeg sydd wedi eu dewis; darllenwch eu proffiliau i ddysgu mwy amdanynt. Bydd y criw cyntaf o ddeuddeg yn mwynhau ystod o brofiadau dysgu gan gynnwys seminarau, gweithdai, cyfleoedd mentora a thaith astudio i Reykjavik, Gwlad yr Iâ.

Darllenwch yr erthygl lawn ar y prosiect SBARC yma



*1 - Y garfan gyntaf o 12 o bobl i gymryd rhan yn rhaglen SBARC Ceredigion yr Hydref hwn.*


# Cwrdd â Busnes ym Mhowys: Twristiaeth Canolbarth Cymru

## Adfywio Canolbarth Cymru: Rhaglen Teyrngarwch a Gwobrau Arloesol ar gyfer Cymunedau Lleol Cynaliadwy

Mae Twristiaeth Canolbarth Cymru (MWT Cymru) wedi gwneud cais llwyddiannus, a'i ddyfarnu, am gyllid y Cronfa Ffyniant Gyffredin o Bowys i ddatblygu prosiect cyffrous sy'n cynnig gweithredu gwobrau wedi'u targedu a rhaglenni teyrngarwch ar draws trefi yn y sir. Nod y rhaglen arloesol hon yw bod o fudd i'r trefi a'r cymunedau lleol.

Drwy gynnal y prosiect hwn ym Mhowys, nod MWT Cymru yw casglu mewnwelediadau a dysg gwerthfawr y gellid eu cymhwyso i drefi eraill yng Nghymru. Mae'r prosiect yn ceisio dangos effaith y dechnoleg hon ar gynaliadwyedd hirdymor a chymeriad unigryw trefi ym Mhowys, gan baratoi'r ffordd ar gyfer mabwysiadu'r atebion hyn yn ehangach yng nghymunedau Canolbarth Cymru a thu hwnt.

Mae MWT wedi penodi tîm o gydlynwyr lleol a fydd yn cynorthwyo grwpiau lleol a chynghorau tref i weithio gyda busnesau lleol gan eu cynorthwyo i integreiddio'r rhaglen wobrwyo a theyrngarwch yn eu gweithrediadau.




Trwy weithredu gwobrau wedi'u targedu a rhaglenni teyrngarwch, gall ardaloedd lleol fwynhau manteision amrywiol, gan gynnwys mwy o deyrngarwch cwsmeriaid, economi leol gryfach, a chymuned fwy ymgysylltiol a bywiog. Gall y rhaglenni hyn hefyd helpu i fynd i'r afael ag anghenion a blaenoriaethau lleol penodol wrth wella ansawdd bywyd cyffredinol trigolion.

Bydd y rhaglen yn gweithredu elfen *gamification* i ymgysylltu â chymunedau lleol ac annog ymddygiad cadarnhaol ymhlith unigolion.

Mae rhai o'r buddion y gallai'r gwobrau a'r rhaglen ffyddlondeb wedi'u targedu eu darparu yn cael eu hamlygu yn y diagram (ar y chwith).

Am fwy o wybodaeth am y prosiect, cysylltwch â: Zoe Hawkins yn Twristiaeth Canolbarth Cymru, zoe@mwtcymru.co.uk.

## Cwrdd â'r Tîm

Barbara Green - Swyddog Cefnogi Prosiect Tyfu Canolbarth Cymru



- **Pryd wnaethoch chi ddechrau gyda'r tîm?**

Ymunais â'r tîm ddiwedd mis Chwefror 2022 fel Swyddog Cymorth Prosiect, ar ôl treulio 15 mis gyda Thîm Olrhain COVID-19 Ceredigion. Cyn hynny, roeddwn i'n gweithio fel Rheolwr Gweithrediadau gyda chwmni arddangosfeydd rhyngwladol yn Llundain, gan ddarparu gwasanaethau i gwmnïau bwyd a diod yn y DU gan gynnwys cwmnïau o Gymru i hyrwyddo eu cynnyrch i'w hallforio mewn arddangosfeydd rhyngwladol.

Pan ddechreuais gyda Tyfu Canolbarth Cymru, roeddwn i'n gweithio'n benodol ar gyfer Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol Canolbarth Cymru yn cefnogi'r Rheolwr. Wrth i gyllid Ewropeaidd ar gyfer y swydd honno ddod i ben, mae fy rôl wedi esblygu ac rwyf bellach yn darparu cefnogaeth weinyddol i Becky Jeremy, Rheolwr Rhanbarthol tîm CCA Canolbarth Cymru a Marie Evans, Rheolwr Rhaglen y Gronfa Ffyniant Bro (LUF) yng Ngheredigion.

- **A allwch ddweud mwy wrthym am eich rôl?**

Mae fy rôl yn amrywiol ac mae wedi newid yn aruthrol ers dechrau'r rôl.

Mae fy ngwaith gyda thimau LUF a SPF yn cynnwys trefnu cyfarfodydd bwrdd rhaglen, cyfarfodydd cynnydd mewnol a chyfarfodydd ad-hoc lle bo angen a delio â'r ohebiaeth ddilynol a chymryd cofnodion.

Rwy'n cydlynu cyfarfodydd rhanbarthol Partneriaeth GMW, gan weithio gyda chydweithwyr yn cadarnhau cyflwyniadau a phapurau cyn eu dosbarthu i'r rhanddeiliaid allanol a chydweithwyr rhanbarthol mewnol.

Rwyf hefyd yn trefnu seminarau drwy ZOOM neu TEAMS ar gyfer rhanddeiliaid allanol ar gyfer y Cronfa Ffyniant Gyffredin ac yn ddiweddar cydlynu Gweithdy Llywodraeth / Sefydliad Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd Cymru (OECD) sy'n canolbwyntio ar Gyd-bwyllgor Corfforaethol newydd Canolbarth Cymru.

Wrth i mi weithio ar draws sawl ffrwd gyllidol, partneriaethau a phwyllgorau gwahanol, mae sgiliau trefnu da yn allweddol ac rwy'n sicrhau bod fy system ffeilio yn gyfredol felly mae'n hawdd dod o hyd i ddogfennau pan fo angen – croesi bysedd!

- **Beth yw eich blaenoriaethau presennol?**

Ar hyn o bryd, rwy'n gweithio ar y cais terfynol ar gyfer prosiect Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol Canolbarth Cymru gyda chydweithwyr ym maes cyllid a'r adroddiadau cau terfynol.

Rwyf hefyd yn casglu gwybodaeth ar gyfer ymarfer mapio gyda Chronfa Ffyniant Gyffredin y DU yn seiliedig ar y prosiectau sydd wedi'u cymeradwyo hyd yma. Disgwylir i'r Cronfa'r Ffyniant Bro (LUF) yng Ngheredigion gyflwyno Adroddiad Addasu Prosiect (PAR) ym mis Rhagfyr ac rwy'n cefnogi'r Rheolwr Rhaglen i gael y wybodaeth gywir ar gyfer y cyflwyniad.

Yn ddiweddar, rwyf wedi cymryd yr awenau ar gyfer elfen frandio'r LUF ac yn edrych ymlaen at weithio gyda'r prosiectau ar yr agwedd honno – mae'n wych pan gewch gyfle i ymgysylltu â busnesau sydd wedi derbyn cyllid a gweld canlyniadau cadarnhaol eu dyraniad.

- **Pa ddatblygiadau ydych chi wedi'u gweld dros y blynyddoedd?**

Mae newid mawr wedi bod ers i mi ddechrau gan fod y cyllid Ewropeaidd ar gyfer fy rôl gychwynnol wrth ymuno â'r Tîm bellach wedi dod i ben ac rydym wedi symud i gyllid Llywodraeth y DU o dan y Gronfa Ffyniant Bro. Gyda gwahanol weithdrefnau i ddilyn, bydd heriau gwahanol bob amser ond rydym i gyd yn gweithio'n dda gyda'n gilydd i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau.

Mae gweithio fel rhanbarth hefyd yn cyflwyno heriau ac mae safoni dogfennaeth a ffyrdd o weithio rhwng dau awdurdod ar gyfer y SPF wedi cymryd amser. Ond, mae cyfarfodydd rheolaidd ar gyfer y ddau dîm cyflenwi sirol gyda'i gilydd wedi helpu i bontio hyn ac mae dros 100 o brosiectau bellach wedi'u cymeradwyo. Rydym yn dechrau gweld y prosiectau hynny'n mynd i mewn i'r cam cyflawni ac rwy'n edrych ymlaen at wneud rhywfaint o waith ar gofnodi eu cyflawniadau.

Mae tîm GMW wedi cynyddu gydag aelodau ychwanegol yn ymuno o dan y ffrydiau gwaith amrywiol ac yn dod â digon o frwdfrydedd gyda nhw.




*2 - Barbara gyda Ruperra Carefree, yr ebol buddugol.*

- **Beth oedd eich cyflawniad mwyaf?**

Un o'r gweithgareddau mwyaf y bûm yn gweithio arno oedd gweminar cychwynnol y Gronfa Ffyniant Gyffredin. Roedd yn ddigwyddiad rhithiol gyda dros 150 o bobl wedi cofrestru i fynychu, roedd

hynny'n her gan nad oeddwn erioed wedi trefnu digwyddiad ar-lein o'r blaen. Diolch byth, aeth popeth yn unol â'r cynllun a chafodd dderbyniad da.

Mewn swydd flaenorol, gweithiais ym maes rheoli digwyddiadau am nifer o flynyddoedd gan gynnwys trefnu un o brif sioeau sirol Cymru a oedd yn rhedeg dros 3 diwrnod. Yn ystod fy mlwyddyn gyntaf yno, symudais i System Rheoli Sioe newydd a ddaeth â naw cronfa ddata at ei gilydd a darparu ffordd symlach o reoli cofnodion a gweithgareddau ar gyfer y sioe. Nid oedd yn gwbl weithredol tan fis Mehefin y flwyddyn honno mewn man lle byddem fel arfer yn cau ceisiadau, aelodaeth ac ati. Des i drwyddi gyda chefnogaeth tîm gwych ac aeth y sioe yn ei blaen gyda llwyddiant mawr ym mis Awst.

Rwy'n teimlo fy mod wedi cael llawer o gyflawniadau personol dros y blynyddoedd, ond dim mwy nag ennill pencampwriaeth yn Sioe Frenhinol Cymru eleni gyda ebol merlen Mynydd Cymreig a fagwyd gartref ar ôl dros 40 mlynedd o fridio a ddechreuais gyda fy nhad pan oeddwn yn fy arddegau. Does dim byd tebyg i'r teimlad hwnnw o gael y rosette coch yn y Prif Gylch a’r balchder aruthrol rydych chi’n ei deimlo, mae’n eithaf llethol. Er gwaethaf cyfnod arddangos gwych dros y blynyddoedd gan ennill nifer o wobrau a phencampwriaethau, dyma uchafbwynt y calendr dangos ac yn bendant mae’n curo popeth arall. Rwyf hefyd wedi dechrau beirniadu yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac roedd yn anrhydedd mawr cael fy ngwahodd allan i'r Iseldiroedd i farnu sioe yn gynharach yn yr Hydref. Ar ben hynny, y tu allan i'r gwaith, rwy'n Ysgrifennydd dwy Sioe Merlod a Chobiau Cymreig adnabyddus, ac rwy'n dathlu fy 25ain blwyddyn fel ysgrifennydd yn 2024 ar gyfer un ohonynt.

Mae gen i lawer mwy o gerrig milltir i'w cyrraedd a gobeithio mwy o gyflawniadau – nid wyf yn credu y dylech chi roi'r gorau i'ch nodau a'ch uchelgeisiau!



*3 - Barbara a Rita*

- **Un gair sy'n crynhoi Tîm Tyfu Canolbarth Cymru:**

**Ymrwymedig.**

Mae'n wych gweithio gyda thîm sydd wedi ymrwymo i gyflawni nodau a thargedau GMW a'u cyflawni gyda brwdfrydedd. Rydym i gyd yn dod o gefndiroedd amrywiol fel y nodwyd yn ein Diwrnod Tîm i Ffwrdd ym mis Gorffennaf, ond mae gan bawb weledigaeth a rennir ar gyfer Canolbarth Cymru ac maent wedi ymrwymo i'w rôl ac yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i'r rhanbarth.

# Newyddion Arall

## Ymgynghoriad Ar Gynllun Corfforaethol

Mae trigolion Canolbarth Cymru yn cael y cyfle i roi eu sylwadau ar Gynllun Corfforaethol Cyd-bwyllgor Corfforaethol (CJC) y rhanbarth.

Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Canolbarth
Mid Wales Corporate Joint Committee

Crëwyd CJC Canolbarth Cymru, sy'n cynnwys Cynghorau Sir Powys a Cheredigion a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, fel rhan o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Bydd y CJC yn arfer swyddogaethau sy'n ymwneud â'r economi, cynllunio datblygu strategol a chynllunio trafnidiaeth ranbarthol. Am y stori gyfan, gweler yr erthygl lawn yma.

Gallwch weld y Cynllun Corfforaethol Drafft a'r dogfennau cysylltiedig drwy glicio yma: www.dweudeichdweudpowys.cymru/cynllun-corfforaethol-cc

Bydd yr ymgynghoriad yn cau ar 12 Rhagfyr a bydd sylwadau'n cael eu hadrodd i gyfarfod y CJC ym mis Ionawr.

## Her Canolbarth Cymru Led Launchpad Rownd 2



*4 - Arloesi Aber*

**Her Iechyd a Lles Gwledig**

Mae cystadleuaeth Ymchwil a Datblygu Launchpad Her Canolbarth Cymru sy'n cael ei gynnal gan Arloesi Aber yn dychwelyd am ail rownd, wedi'i ariannu gan Lywodraeth y DU, wedi'i gyrru gan y Gronfa Ffyniant Bro, gyda'r nod o ddatblygu atebion newydd i faterion sector cyhoeddus a chymdeithasol drwy ymchwil ac arloesi tra'n cynnig cyfleoedd marchnad newydd i fusnesau a phobl yng Nghanolbarth Cymru.

Ariennir prosiectau 100% i gymryd rhan mewn ymchwil a datblygu, sy'n canolbwyntio ar anghenion penodol a nodwyd ac maent yn agored i bob sefydliad sy'n gallu dangos llwybr i'r farchnad ar gyfer eu datrysiad.

Mae'r ymgynghoriad yn cau ar 4 Rhagfyr 2023

## Edrych ymlaen

A oes angen i chi ddal i fyny gyda'r hyn a drafodwyd yn ein cyfarfodydd? Dyma nodyn i'ch atgoffa o ble y gallwch gael gafael ar gofnodion y cyfarfodydd canlynol:

- Caiff yr holl gofnodion sy'n ymwneud â Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru eu cynnwys ar wefan Cyngor Sir Powys.
- Gellir gweld papurau sy'n ymwneud â Phartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru ar ein gwefan.

Gallwch weld y newyddion diweddaraf am Dyfu Canolbarth Cymru, datblygiadau am weithgarwch a sefydliadau yr ydym yn eu cefnogi trwy ddilyn ein tudalennau Linked In a Twitter:

https://twitter.com/growingmidwales

www.linkedin.com/company/growing-mid-wales

Rydym yn awyddus i estyn allan i gymaint o sefydliadau a busnesau ag y bo modd ar draws Canolbarth Cymru, a gallwch chi sicrhau bod hyn yn bosibl trwy ddilyn, hoffi a rhannu ein tudalennau.

Ymwadiad: Fel Rhanddeiliad Tyfu Canolbarth Cymru, rydych chi'n cael y negeseuon e- bost hyn er mwyn i ni allu rhannu newyddion a gwybodaeth gyda chi yn rheolaidd. Gallwch ein hysbysu os nad ydych yn dymuno cael y negeseuon e-bost hyn mwyach trwy anfon e-bost at tyfucanolbarthcymru@ceredigion.llyw.cymru

Tyfu
Canolbarth Cymru
Growing
Mid Wales

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd**

**European Structural and Investment Funds**